Beth sydd yn digwydd efo gwybodaeth fi?

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

www.gwynedd.llyw.cymru

Eich Gwybodaeth

Bydd yr Ysgol a Cyngor Gwynedd yn casglu gwybodaeth amdanoch chi.

Mae'r gyfraith newydd - **Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)** yn golygu bod rhaid i unrhyw un sydd yn casglu Gwybodaeth yn gorfod:

- Dweud wrthych, **pwy** ydynt;
- Esbonio **pam** eu bod eisiau eich gwybodaeth;
- Egluro yn glir, **beth** mae nhw yn ei wneud efo'r wybodaeth;
- Sicrhau bod eich Gwybodaeth yn cael ei chadw'n ddiogel;
- Dinistrio'r wybodaeth pan na fydd ei hangen mwyach;
- Dweud wrthych beth yw eich **hawliau**

Pwy?

Rhaid i ni, Ysgol _____ a Chyngor Gwynedd gael gwybodaeth er mwyn cadw chi'n ddiogel ac i helpu sicrhau eich bod chi yn derbyn addysg dda.

Mae'r wybodaeth a gasglwn amdanoch yn cynnwys:

- Eich manylion personol (Enw, cyfeiriad, dyddiad geni, rhyw);
- Eich cofnodion presenoldeb ag unrhyw gamau a gymerwyd i ddelio â phroblemau;
- Gwybodaeth am unrhyw anghenion addysgol ychwanegol;
- Gwybodaeth am gymorth a gewch gan wasanaethau gofal cymdeithasol a darparwyr eraill
- Canlyniadau eich arholiadau a'ch profion

Mae'r wybodaeth yma yn ein helpu i wybod pwy ydych chi a'r hyn sydd ei angen arnoch.